


Cynllun Cynefin
Cymorth Cynllunio Cymru

# YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED:

## Canllaw i gymunedau

Canllawiau Cymunedol
Cynllun Cynefin Kickstarter 3/6

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

# YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED: Canllaw i Gymunedau

Canllawiau Cymunedol Cynllun Cynefin Kickstarter 3/6

## Beth yw'r ddogfen hon?

Mae'r canllaw hwn yn archwilio llunio cynlluniau sy'n cael eu harwain gan y gymuned.

Mae'n edrych ar y gwahanol fathau o gynlluniau y gall cymunedau eu cynhyrchu a'r hyn sydd angen ei wneud i wneud cynllun da sy'n sicrhau canlyniadau.

Paratowyd y canllaw hwn gan Gymorth Cynllunio Cymru ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel rhan o'r prosiect 'Cynllun Cynefin Kickstarter' gydag arian gan Gronfa Adnewyddu Cymunedol Llywodraeth y DU Cymru.

## Ar gyfer pwy y mae o?

Mae'r canllaw hwn wedi'i gynllunio ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref a / neu grwpiau cymunedol yng Nghonwy sydd naill ai:

- Wedi cwblhau Cynllun Cynefin Kickstarter ac yn ystyried y camau nesaf, neu:
- Yn ystyried cynhyrchu rhyw fath o gynllun cymunedol ac maen nhw'n pendroni ble i ddechrau.

Mae'r canllaw yn rhan o gyfres sy'n archwilio cynllunio dan arweiniad y gymuned; Gellir lawrlwytho'r canllawiau hyn o **www.placeplans.org.uk/conwyguides**

# Cynnwys


**Rhoi eich cymuned wrth galon eich cynllun.......... 4**
**Pam ymgysylltu â'r gymuned? .......... 4**
**Prif egwyddorion .......... 5**
**Pwy i ymgysylltu â nhw?.......... 6**
Rheoli'r cyfan .......... 6
Grwpiau neu sectorau i'w targedu .......... 6
**Pryd: camau ymgysylltu .......... 7**
Kickstarter .......... 7
Cynllun Cymunedol neu Gynllun Cynefin llawn .......... 7
Cynllunio gweithredu .......... 8
**Dulliau ymgysylltu .......... 9**
**Tuag at broses gyffredinol: creu 'rysáit' .......... 11**
**Adrodd a Gwerthuso .......... 12**
**Atodiad 1: Taflenni gwaith .......... 13**
Taflen waith 1: Egwyddorion a Gwerthuso .......... 13
Taflen waith 2: Rhanddeiliaid .......... 14
Taflen waith 3: Yr 'Anodd eu Cyrraedd' .......... 16
Taflen waith 4: Mwy o Fanylion ar Ddulliau .......... 17
Templed Gweithdy .......... 18
Templed Fformat Gweithdy .......... 19
Cynnwys Pobl: Digwyddiadau *Pop-up* / Galw heibio .......... 20
Cynnwys pobl: Byrddau Rhyngweithiol .......... 21
Ymgynghori â phobl: Cynllun drafft .......... 23
Taflen waith 5: Profforma Cynllunio Prosiect .......... 25
**ATODIAD 2: CANLLAW .......... 26**


# Rhoi eich cymuned wrth galon eich cynllun



Mae cynllun cymunedol da yn seiliedig ar ymgysylltu a chyfranogiad cymunedol o ansawdd da.

Mae eich Cynllun Cymunedol neu Gynllun Cynefin yn gyfrwng i'ch cymuned feddwl am sut i wneud eu lle'n well, cytuno ar flaenoriaethau, a gweithredu (yn aml yn gweithio gydag eraill) i wneud i newid ddigwydd. Mae'r Pecyn Cymorth hwn yn nodi cyngor ymarferol ar sut i adeiladu ar yr ymgysylltu cymunedol a wnaed hyd yma i'w barhau wrth weithio ar ddrafftio eich Cynllun.

# Pam ymgysylltu â'r gymuned?



Mae'n werth meddwl am eiliad am y manteision a all ddod o ymgysylltu cymunedol effeithiol. Gall:

- ✓ Dynnu allan a dod â'r holl faterion, syniadau, profiad, sgiliau a gwybodaeth at ei gilydd – adnodd potensial enfawr - gan bawb yn eich cymuned, nid dim ond nifer fach.
- ✓ Helpu i fynd i'r afael â safbwyntiau gwahanol yn gynnar, yn hytrach na phan fydd hi’n rhy hwyr.
- ✓ Cyrraedd Cynllun terfynol a chytûn yn llawer cyflymach.
- ✓ Rhoi ymdeimlad o 'berchnogaeth' i bobl leol - eu cynllun nhw fydd o – a bydd hyn yn helpu yn y dyfodol i fwrw ymlaen â holl gynigion y Cynllun.
- ✓ Bod yn bleserus, yn magu hyder pobl ac yn codi ymwybyddiaeth eang o faterion lleol.
- ✓ Dangos - i'ch awdurdod lleol ac eraill - cymorth cymunedol clir, cryf i'r Cynllun terfynol.

# Prif egwyddorion

Mae rhestr bosibl o Egwyddorion yn dilyn isod**.**

Meddyliwch am hyn fel paratoi pryd o fwyd i ffrindiau. Mae angen i chi feddwl pwy ydyn nhw, beth maen nhw'n hoffi ei fwyta, unrhyw ofynion deiet ac ati, a gwirio hyn gyda nhw (Egwyddorion 2 a 4 isod). Mae angen i chi feddwl am y gwahanol gyrsiau (Egwyddor 8 isod). Mae angen i chi feddwl am y cynhwysion posibl (y Dulliau fel yn Egwyddor 7 isod). Ac ni allwch ei daflu at ei gilydd yn llanast anfwytadwy; mae angen i chi gael rysáit i'w ddilyn (Egwyddor 1 isod)!

1. Mae angen proses gyfan, wedi'i chynllunio; nid dim ond rhestr ar hap o ddigwyddiadau/gweithgareddau.
2. Datblygwch a chytunwch ar y broses honno gyda phobl allweddol, nid dim ond eich Gweithgor neu'ch Grŵp Llywio.
3. Gosodwch gwmpas eich Cynllun drwy fod yn glir ynghylch beth sydd ac nad yw'n agored i newid.
4. Nodwch yr holl grwpiau targed, ymgynghoreion, rhanddeiliaid posibl.
5. Sefydlwch weithgareddau sy'n codi ymwybyddiaeth ac yn ennyn digon o ddiddordeb i, yn ddelfrydol, gael 'pawb' i gymryd rhan.
6. Dechreuwch yn gynnar, nid pan fydd cynllun eisoes wedi'i ddrafftio ac mae pethau eisoes bron wedi'u gorffen.
7. Defnyddiwch ystod o ddulliau gwahanol - gweithdy, holiadur, arolwg, sesiynau galw heibio ac ati.
8. Defnyddiwch ddulliau sy'n briodol i bob cam gwahanol.
9. Adroddwch yn ôl yn gyflym, yn rheolaidd ac yn fanwl er mwyn i bobl weld pa wahaniaeth maen nhw'n ei wneud.
10. Ar y diwedd, gwerthuswch eich gwaith ymgysylltu yn erbyn yr uchod i gyd.
11. Adfywio democratiaeth leol

Mae'n anghyffredin iawn i unrhyw broses dicio'r holl flychau uchod yn llawn felly peidiwch â phoeni'n ormodol am hynny. Er mwyn gwneud y gwerthusiad terfynol, gweler **Taflen Waith 1** yn yr Atodiad lle gallwch ychwanegu nodiadau yn y blychau i gofnodi'r hyn oedd ac efallai na chafodd ei wneud, yr hyn a aeth yn dda ac yn y blaen.

*O'r fan hon, mae'r Pecyn Cymorth hwn yn cwmpasu pwyntiau allweddol am **BWY** i ymgysylltu â nhw, **PRYD** i ymgysylltu â nhw a'r **DULLIAU** i'w defnyddio. Yna mae'n cynnig rhywfaint o arweiniad am y broses gyffredinol (**RYSÁIT)** gan ddefnyddio enghraifft. Mae atodiad 1 yn cynnwys Taflen Waith 1 fel yr uchod a rhai eraill. Mae atodiad 2 yn rhoi rhai dolenni i chi at becynnau cymorth ac arweiniad eraill y gallent fod yn ddefnyddiol i chi. Dylid ei ddarllen ar y cyd â phecynnau cymorth eraill Cynllun Cynefin Conwy y cyfeirir atynt drwy gydol y pecyn cymorth hwn.*


# Pwy i ymgysylltu â nhw?

## Rheoli'r cyfan

Dydi ymgysylltu ddim jest yn digwydd; mae angen rhywbeth sydd gennych chi eisoes mae'n debyg - Gweithgor. Yn ddelfrydol, dylai'r grŵp fod â rhywfaint o gysylltiad â CBSC fel un o'ch partneriaid pwysicaf ar gyfer datblygu a chyflawni'r Cynllun.

Mae’n dda iawn hefyd cael un person ar y Gweithgor a enwebir i arwain ar y gwaith ymgysylltu, i wirio cynnydd a sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw - **Hyrwyddwr Ymgysylltu**.

## Grwpiau neu sectorau i’w targedu



Mae'n amlwg bod angen i chi geisio cyrraedd 'pawb' yn eich cymuned ond mae hi hefyd yn bwysig adnabod ar y dechrau y partneriaid a'r rhanddeiliaid penodol yr ydych am iddynt gyfrannu at eich Cynllun.

Bydd grwpiau rhanddeiliaid yn gwahaniaethu’n fawr o gymuned i gymuned. Y peth pwysig yw eich bod yn adnabod y bobl a'r grwpiau fydd yn cael eu heffeithio gan eich cynllun ac sy'n gallu dylanwadu ar ei lwyddiant yn y pen draw. Bydd y bobl hyn yn amrywio o gynghorwyr i dirfeddianwyr i grwpiau cymunedol, yn ogystal â rhai o gymunedau anodd eu cyrraedd a lleiafrifol.

Drwy gysylltu â grwpiau ffurfiol, a elwir yn aml yn 'rhanddeiliaid' (e.e. Cymdeithas Ddinesig), mae siawns gref y byddant yn gallu annog eu holl 'aelodau' i gymryd rhan a chyfrannu. Bydd hynny'n golygu y byddwch yn cyrraedd llawer mwy o bobl, a phobl sydd â diddordebau a gwybodaeth benodol, nag a fyddai byth yn bosib gyda rhywbeth fel holiadur cyffredinol. Yna ceir y grwpiau anffurfiol, a elwir weithiau yn grwpiau 'anodd eu cyrraedd' (e.e. pobl ifanc / henoed) ac mae angen sylw gofalus arnynt.

Mae **Taflen waith 2** yn rhoi rhestr o grwpiau rhanddeiliaid posibl ac yn egluro sut i beidio â'u nodi yn unig ond ystyried sut a phryd y gellid ymgysylltu â nhw a sefydlu rhestr gyda manylion cyswllt ac ati.

Mae **Taflen waith 3** yn darparu siart i nodi'r rhain ar gyfer eich ardal benodol ac yna rhai blychau lle gallwch awgrymu sut y gallech ymgysylltu â grwpiau o'r fath. Mae dau dric allweddol i wneud hyn:

- Peidiwch â'i wneud eich hunain; gweithiwch drwy grwpiau (e.e. elusen pobl hŷn neu ysgolion) sydd mewn gwirionedd yn gweithio'n uniongyrchol gyda phobl hŷn neu blant.
- Byddwch yn barod i fynd allan atynt yn hytrach na disgwyl iddyn nhw ddod atoch chi (gelwir hyn yn 'estyn allan').

# Pryd: camau ymgysylltu

Mae'r prif Gamau ar gyfer datblygu Cynllun Cynefin llawn neu Gynllun Cymunedol, ac felly ar gyfer yr ymgysylltu, yn cael eu hesbonio yn ***Canllaw 1*** ac yn cael eu hailadrodd yma yn fras iawn:

## Kickstarter

Dyma'r cam cyntaf o ymgysylltu sy'n cyfrannu at baratoi gweledigaeth, amcanion a chamau cychwynnol y gellir eu cymryd ymlaen fel y blaenoriaethau hynny sydd bwysicaf i'r gymuned. Ar ddiwedd y cam hwn bydd gennych 'gynnig cyntaf' neu Gynllun Kickstarter.

Bydd eich cynllun Kickstarter yn gweithredu fel sylfaen a sbardun ar gyfer datblygu Cynllun Cymunedol neu Gynllun Cynefin llawn yn y dyfodol. Byddai'r camau ar gyfer y Cynllun llawn yn adeiladu ar gamau'r Cynllun Kickstarter i weithio ar bynciau a adnabuwyd yn fanylach a fydd wir yn llywio ac yn dylanwadu ar newid a datblygiad.

## Cynllun Cymunedol neu Gynllun Cynefin llawn

Y camau isod yw'r camau i ddatblygu Cynllun. Camau 1, 2B, 4B a 6B yw'r prif gamau ar gyfer ymgysylltu (gweler y Pecyn Cymorth Strategaeth am fwy o fanylion) er bod cael syniadau a gwybodaeth gan eraill yn werthfawr ar bob cam. Mae Cam 3 yn cynnig math ychydig yn wahanol o ymgysylltu oherwydd ei fod yn ymwneud â dod â phobl i mewn i gasglu tystiolaeth ar agweddau neu faterion penodol (gweler y Pecyn Cymorth Tystiolaeth).

**Cam 1: Trafod y Materion i'ch Cynllun roi sylw iddynt**

**Cam 2: Gweledigaeth a Deilliannau:**

- 2A: Datblygu eich Gweledigaeth a'ch Deilliannau
- 2B: Rhannu'r rhain yn eang

**Cam 3: Casglu Tystiolaeth**

**Cam 4: Cynllun 'Cynnig Cyntaf'**

- 4A: Drafftio eich Cynllun Cynnig Cyntaf
- 4B: Rhannu a gwirio'r Cynllun hw**n**

**Cam 5: Diwygio'r Cynllun cynnig cyntaf yng ngoleuni'r adborth**

**Cam 6: Cynllun Terfynol (bron)**

- 6A: Cynhyrchu'r Cynllun terfynol
- 6B: Gwiriad terfynol ar y Cynllun hwn

*Ar ôl Cam 6 daw'r cam pan fydd eich Cynllun Llawn yn cael cefnogaeth ffurfiol gan CBSC.*

Mae gan y siart a ddefnyddir yn **Nhaflen Waith 2** (gweler Atodiad 1) golofn lle gallwch nodi'r camau lle’r ydych yn credu y dylid ymgysylltu â phob grŵp rhanddeiliaid. Nid oes angen ymgysylltu â phawb ym mhob cam. Mae angen i rai roi eu mewnbwn ar y cychwyn cyntaf, mae angen i eraill weld a rhoi sylwadau ar ddim ond y cynllun cynnig cyntaf ac yna’r cynllun terfynol.

## Cynllunio gweithredu


Unwaith y bydd eich cynllun wedi cael ei fabwysiadu gan CBSC, neu hyd yn oed cyn hynny os oes rhai prosiectau ymarferol nad ydynt yn rhan o'ch Cynllun rydych chi'n meddwl y gallwch chi ddechrau eu symud ymlaen, gallwch ddechrau ar rai cynllunio gweithredu.



Gall hyn olygu bod angen ymgysylltu â grwpiau penodol neu bobl sy'n berthnasol i bob un o'ch prosiectau. Gweler ***Canllaw 1*** sy'n cynnwys siart ar gyfer cynllunio gweithredu a cholofn yn datgan gyda phwy y gellid datblygu pob prosiect.

# Dulliau ymgysylltu

Wrth weithio allan sut i ymgysylltu â'ch cymuned leol, bydd yr Egwyddorion yn eich helpu i sicrhau bod pobl o bob rhan o'ch cymuned yn cael cyfle i lunio'r Cynllun mewn ffyrdd sy'n ystyrlon iddyn nhw'n bersonol yn ogystal ag i'r gymuned ehangach.



Mae tair lefel a dull gwahanol o ymgysylltu yr ydym yn eu nodi yn y pecyn cymorth hwn, pob un yn cael ei wneud orau gan ddefnyddio dulliau gwahanol: Hysbysu, Ymgynghori, Cynnwys.

Mae gwahanol bobl yn ymateb i ddulliau gwahanol ac mae dulliau gwahanol yn ddefnyddiol ar wahanol gyfnodau. Dylech geisio defnyddio cyfuniad o ddulliau bob amser dros gyfnod datblygu'r cynllun, gan gydbwyso cyswllt wyneb yn wyneb â dulliau ar-lein ac arolygon, gan roi cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Adnabu cynrychiolwyr cymunedol sy'n rhan o Gynlluniau Kickstarter 2022 y ffyrdd gorau o gyrraedd mwy o bobl yn y gymuned:

1. Trefnu digwyddiadau - e.e. dawnsiau / digwyddiadau cerddoriaeth yn neuadd y dref, partïon stryd a gwyliau thematig
2. Ewch i lle mae pobl - e.e. y dafarn, yr ysgol, archfarchnad Co-op er enghraifft a cheisiwch gymryd mantais o ddigwyddiadau presennol
3. Defnyddiwch y cyfryngau cymdeithasol
4. Defnyddiwch lysgenhadon / hyrwyddwyr o wahanol leoliadau a phob grŵp oedran
5. Defnyddiwch holiaduron i ddarganfod beth mae pobl ei eisiau
6. Tabl co-op a hysbysfwrdd ffisegol
7. Gosod hysbysiadau mawr / hysbysfyrddau o gwmpas y dref
8. Defnyddiwch gymhellion i dynnu pobl i mewn – e.e. gwin a chaws
9. Ceisiwch gyrraedd pobl sy'n disgyn trwy'r craciau – yr 'anodd i'w cyrraedd'.


Mae dulliau penodol diddiwedd i gyflawni’r nod o gyrraedd mwy o bobl yn y gymuned fel y nodir uchod; Mae'r siart isod yn cynnwys rhai enghreifftiau sylfaenol y gellir eu haddasu ar gyfer eich lle gan dynnu ar yr hyn rydych chi'n ei wybod am eich cymuned (er enghraifft – pa gymhellion fyddai'n gweithio i chi a'ch cymuned).

| Math | Disgrifiad | Dulliau Enghreifftiol |
|---|---|---|
| **Hysbysu** | Gadael i bobl wybod am y broses llunio cynllun – penderfyniadau / cyfleoedd / syniadau | Taflenni<br>Gwefannau / Cyfryngau cymdeithasol<br>Cylchlythyrau<br>Datganiadau i'r Wasg<br>Stondinau mewn Digwyddiadau<br>Cymunedol (mae cymryd mantais ar ddigwyddiadau lleol eraill yn aml yn syniad da)<br>Ymweld â grwpiau cymunedol, cartrefi gofal<br>ysgolion/colegau |
| **Ymgynghori** | Casglu barn i lywio penderfyniadau | Grwpiau ffocws gwahoddedig<br>Digwyddiadau *pop-up*, galw heibio (digwyddiadau a gynhelir dros gyfnod hir lle gall pobl droi i fyny ar unrhyw adeg)<br>Holiaduron / Arolygon<br>Cyfarfodydd 1-i-1<br>Arolygon a phleidleisio ar-lein |
| **Cynnwys** | Galluogi i bobl fod yn rhan o'r broses o gasglu a gwerthuso tystiolaeth – gan siapio penderfyniadau a wnaed ynghylch cynnwys ar gyfer y Cynllun. | Gweithdai rhyngweithiol<br>Tîm Tystiolaeth – gweler ***Canllaw 4*** |

Efallai y bydd rhai digwyddiadau rydych chi'n eu cynnal yn tynnu ar y tri math o ymgysylltu – er enghraifft rydych chi'n cynnal digwyddiad *pop-up*: yn gyntaf mae angen i chi fod yn sicr eich bod yn **hysbysu'n** eang drwy ystod o ddulliau, gallwch **ymgynghori â** phobl yn y digwyddiad *pop-up* (gallai hyn fod yn gysylltiedig â holiadur ar-lein i ddal y rhai nad ydynt yn dod draw) ac yn ystod y digwyddiad *pop-up* efallai y bydd gennych gyfle i **gynnwys** yn ehangach drwy gynnal rhai gweithdai mewn ystafell oddi ar y brif neuadd.

Mae **taflen waith 4** yn rhoi arweiniad ymarferol manwl ar rai dulliau ymgysylltu. Gweler hefyd y Pecyn Cymorth Tystiolaeth. Mae rhai o'r canllawiau yn Atodiad 2 yn cynnwys mwy o enghreifftiau, ac weithiau'n fwy penodol.

# Tuag at broses gyffredinol: creu 'rysáit'



Bydd paratoi yn dda fel hyn cyn cychwyn yn ddi-os yn arbed amser a phroblemau posibl yn ddiweddarach.  Ac – yn gwbl hanfodol – **nid oes angen i chi, mewn gwirionedd ni ddylech chi, ymgysylltu â phawb ar bob mater ar bob cam gan ddefnyddio pob dull posibl!**

Dyma enghraifft o sut i gynllunio ar gyfer hynny. Mae copi gwag o'r siart hon yn yr atodiad **Taflen Waith 5** y gallwch ei ddefnyddio ar gyfer eich Cynllun eich hun.

Fel y nodir uchod, mae'r camau yn y tabl hwn yn adlewyrchu'r rhai fel y manylir yng ***Nghanllaw 1***

| Cam | Pwy i ymgysylltu â nhw | Nodiadau / manylion |
|---|---|---|
| **1: Trafod Materion** | Pawb yn y gymuned ehangach<br>Pob grŵp allweddol<br>Grwpiau Anodd eu Cyrraedd e.e.;<br>Henoed – i adlewyrchu bod gennym boblogaeth uchel fel y dangosir gan y wybodaeth ddemograffig ddiweddaraf | **Hysbysu**:<br>Cylchlythyr cymunedol – cael slot rheolaidd i roi diweddariadau<br>Posteri Hysbysfwrdd – drwy'r dref / pentref<br>Cyfryngau Cymdeithasol – hyrwyddo digwyddiadau *pop-up* ac arolwg ar-lein<br>Cylchlythyrau ysgol - hyrwyddo digwyddiadau *pop-up* ac arolwg ar-lein<br>**Ymgynghori**: Arolwg ar-lein, Estyn allan wyneb yn wyneb<br>**Cynnwys**: Gweithdai gyda grwpiau penodol fel ysgolion |
| **2A: Datblygu Gweledigaeth a Deilliannau** | Ystod o grwpiau lleol allweddol | **Cynnwys**: Gweithdy yn dwyn ynghyd cynrychiolwyr grwpiau lleol allweddol |
| **2B: Cytuno ar Weledigaeth a Deilliannau** | Pawb yn y gymuned ehangach<br>Pob grŵp allweddol<br>Grwpiau Anodd eu Cyrraedd | **Hysbysu**:<br>Cylchlythyr cymunedol – cael slot rheolaidd i roi diweddariadau<br>Posteri Hysbysfwrdd – drwy'r dref / pentref<br>Cyfryngau Cymdeithasol – hyrwyddo digwyddiadau *pop-up* ac arolwg ar-lein Cylchlythyrau ysgol - hyrwyddo digwyddiadau *pop-up* ac arolwg ar-lein<br>**Ymgynghori**: Gwahodd sylwadau / cwestiynau drwy e-bost neu drwy ffonio |
| **3: Tystiolaeth** | Grwpiau wedi'u targedu | **Ymgysylltu:** Defnyddio grwpiau allweddol ar faterion allweddol i gasglu tystiolaeth gref a manwl |
| **4A: Cynhyrchu Cynllun Cynnig Cyntaf** | **Trafod gyda**: Swyddogion Cyngor Cymuned<br>Gweithgor<br>Tîm Tystiolaeth | |
| **4B: Rhannu Cynllun Cynnig Cyntaf** | Pawb yn y gymuned ehangach<br>Pob grŵp allweddol | **Hysbysu**:<br>Cylchlythyr cymunedol / papur newydd lleol<br>Posteri Hysbysfwrdd – drwy'r dref / pentref |

| | | |
|---|---|---|
| | Grwpiau Anodd eu Cyrraedd<br>CBSC ac eraill | Cyfryngau Cymdeithasol – hyrwyddo digwyddiadau *pop-up* ac arolwg ar-lein Cylchlythyrau ysgol - hyrwyddo digwyddiadau *pop-up* ac arolwg ar-lein<br>**Ymgynghori:** *Pop-up* Galw heibio, Arolwg ar-lein<br>**Cynnwys**: Un gweithdy sy'n dwyn ynghyd cynrychiolwyr grwpiau lleol allweddol, Estyn allan wyneb yn wyneb – adnabod grwpiau penodol |
| **5: Diwygio Cynllun Cynnig Cyntaf** | **Trafod gyda**: Grwpiau lleol penodol yn unig ar eu pynciau 'nhw' lle mae angen addasu | |
| **6A: Cynhyrchu Cynllun terfynol** | **Trafod gyda**: Gweithgor | |
| **6B: Cadarnhau cynllun terfynol** | Pawb yn y gymuned ehangach<br>Pob grŵp allweddol<br>Grwpiau Anodd eu Cyrraedd | **Hysbysu**:<br>Fel uchod<br>**Ymgynghori**:<br>Arolwg ar-lein / ffisegol terfynol i gasglu unrhyw adborth terfynol cyn ei fabwysiadu i'w ddefnyddio. |


*Mae hyn yn berthnasol i brosiectau ymarferol yn y cynlluniau Kickstarter **a'r** Cynlluniau Llawn*

| | | |
|---|---|---|
| **Cynllunio Gweithredu** | Grwpiau lleol penodol neu grwpiau sydd newydd eu ffurfio yn ôl pob gweithred/prosiect y cytunwyd arnynt | Bydd hyn yn gyfuniad o ddulliau ymgysylltu fel sy'n briodol i'r weithred / prosiect |

# Adrodd a Gwerthuso

Pan fyddwch yn cyflwyno eich cynllun gorffenedig i CBSC, dylech gynnwys siart orffenedig fel yr uchod yn dangos yr hyn a wnaethoch mewn gwirionedd, ynghyd ag adroddiadau byr ar y canlyniadau o bob dull/gweithgaredd.

Mae hyn yn creu 'llwybr archwilio' o'r diwrnod cyntaf hyd at eich Cynllun terfynol, gan gyfiawnhau ei gynnwys.



# Atodiad 1: Taflenni gwaith

## Taflen waith 1: Egwyddorion a Gwerthuso

Gallwch ddefnyddio hon ar ddechrau'r broses i hysbysu eich barn ar ymgynghori. Ychwanegwch nodiadau byr ym mhob rhes wag i esbonio sut y byddwch yn mynd i'r afael â phob egwyddor a dewch yn ôl at hyn ar ddiwedd y broses a'i ddiweddaru i adlewyrchu'r hyn a wnaethoch.

| EGWYDDORION YMGYNGHORI A GWERTHUSO |
|---|
| Mae angen proses gyfan, wedi'i chynllunio; nid dim ond rhestr ar hap o ddigwyddiadau/gweithgareddau. |
| |
| Datblygwch a chytunwch ar y broses honno gyda phobl allweddol, nid dim ond eich Gweithgor neu'ch Grŵp Llywio. |
| |
| Gosodwch gwmpas eich Cynllun drwy fod yn glir ynghylch beth sydd ac nad yw'n agored i newid. |
| |
| Nodwch yr holl grwpiau targed, ymgynghoreion, rhanddeiliaid posibl. |
| |
| Sefydlwch weithgareddau sy'n codi ymwybyddiaeth ac yn ennyn digon o ddiddordeb i, yn ddelfrydol, gael 'pawb' i gymryd rhan. |
| |
| Dechreuwch yn gynnar, nid pan fydd cynllun eisoes wedi'i ddrafftio ac mae pethau eisoes bron wedi'u gorffen. |
| |
| Defnyddiwch ystod o ddulliau gwahanol - gweithdy, holiadur, arolwg, sesiynau galw heibio ac ati. |
| |
| Defnyddiwch ddulliau sy'n briodol i bob cam gwahanol. |
| |
| Adroddwch yn ôl yn gyflym, yn rheolaidd ac yn fanwl er mwyn i bobl weld pa wahaniaeth maen nhw'n ei wneud. |
| |
| Ar y cyfan, pa mor dda oedd eich gwaith ymgysylltu yn erbyn yr uchod i gyd? |
| |

## Taflen waith 2: Rhanddeiliaid

Yr hyn sy'n dilyn isod yw rhestr safonol o randdeiliaid posibl fel 'dechreuwr am 10'. Dim ond ychydig iawn mae wedi ei addasu ar gyfer Conwy, felly **dyma dempled i chi ei addasu - bydd peth o'r rhestr yn berthnasol, ond nid rhai eraill.**

Dwy restr yw'r nod yn y pen draw:

- Mae'r gyntaf o'r rhai hynny nad ydyn nhw efallai'n ymwneud yn uniongyrchol ond y mae angen eu cadw mewn cysylltiad, er enghraifft Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Mae'r ail o'r rhai sydd angen bod yn ymwneud yn uniongyrchol a mynd ati i gymryd rhan mewn gweithdai neu ddigwyddiadau cyhoeddus, ac wrth gyflawni nodau a gweithredoedd y cynlluniau, er enghraifft eich Siambr Fasnach.

Efallai na fydd rhai categorïau'n berthnasol, felly gallwch eu croesi allan. Mae llefydd gwag i ychwanegu grwpiau eraill rydych chi'n gwybod amdanyn nhw.

Os ydych chi'n credu y dylid cadw cysylltiad â grŵp penodol, ticiwch hynny yn y golofn o'r enw 'HYSBYSU'.

Os ydych yn credu y dylai grŵp penodol fod yn rhan o'r broses yn uniongyrchol, ticiwch hynny yn y golofn o'r enw ‘CYNNWYS’ (mae hyn yn cynnwys ymgynghori fel yn ein 3 elfen o ymgynghori uchod).

Os ydych yn credu y dylai grŵp penodol fod yn rhan o gamau penodol (gweler adran PRYD y prif Becyn Cymorth) nodwch y rhain yn y golofn 'CAM(AU)’ gyda rhif(au) y Cam perthnasol. Os oes angen ymgysylltu â grŵp drwy gydol yr amser, ychwanegwch 'Pawb'.

Peidiwch ag ychwanegu unrhyw fanylion am grwpiau yn y rhestr hon, dim ond ticiau. Ychwanegwch y manylion wedyn, ynghyd â gwybodaeth am bob grŵp megis person cyswllt allweddol, gwybodaeth gyswllt, gwefan, mathau a nifer o aelodau, cyfathrebu a dulliau estyn allan digidol / corfforol, digwyddiadau a gweithgareddau. Wrth ddatblygu a chadw'r rhestr hon o gysylltiadau a gwybodaeth, byddwch yn ymwybodol o reolau GDPR.

| Sector/Grŵp/Sefydliad – RHESTR ENGHREIFFTIOL | Hysbysu | Cynnwys | Cam(au) |
|---|---|---|---|
| Cynrychiolwyr Etholedig | | | |
| Cynghorwyr Sir | | | |
| Cynghorwyr Tref | | | |
| Cymunedau/Trigolion | | | |
| Cymdeithasau Trigolion, lleol iawn i'r safle | | | |
| Cymdeithasau Trigolion, o ardaloedd cyfagos | | | |
| Sector gwirfoddol/cymunedol | | | |
| Grwpiau Defnyddwyr | | | |
| WCVA (corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer sefydliadau gwirfoddol yng Nghymru) | | | |
| Darparwyr tai cymdeithasol | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Hil Cymru (grŵp lleol) | | | |
| Trafnidiaeth Gymunedol | | | |
| Grwpiau seiclo | | | |
| Cymdeithas Cerddwyr | | | |
| Ffederasiwn Beicwyr Modur | | | |
| Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt | | | |
| Sefydliadau/grwpiau amgylcheddol | | | |
| Cymdeithasau Dinesig | | | |
| Cymdeithasau chwarae plant | | | |
| Sefydliadau/grwpiau chwaraeon | | | |
| Sefydliadau/grwpiau celfyddydol | | | |
| Grwpiau anabledd | | | |
| Grwpiau pobl oedrannus | | | |
| Grwpiau ieuenctid | | | |
| Darparwyr cyn-ysgol | | | |
| Ymddiriedolaethau Lleol a chyrff rhoi grantiau | | | |
| Mudiadau ethnig | | | |
| Cyrff ffydd (eglwysi ac ati) ac unrhyw 'ffederasiynau' | | | |
| WI / Merched y Wawr / Clybiau gweithwyr | | | |
| Rotari (ac ati) | | | |
| Llywodraeth ac Asiantaethau a Phartneriaethau Cysylltiedig | | | |
| Swyddogion awdurdod lleol | | | |
| Yr heddlu a'r gwasanaethau brys eraill | | | |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | | | |
| CADW | | | |
| Meddygon teulu lleol | | | |
| Ysgolion a Cholegau | | | |
| Corff celfyddydau rhanbarthol | | | |
| Awdurdod Twristiaeth Rhanbarthol | | | |
| Grwpiau Rheoli Canol Tref | | | |
| Sector Preifat | | | |
| Darparwyr trydan, nwy, telegyfathrebu | | | |
| Cwmnïau bysus | | | |
| Grwpiau defnyddwyr ffyrdd (AA/RAC) | | | |
| Siambr Fasnach | | | |
| Cymdeithasau masnachwyr bach | | | |
| Cwmnïau lleol mwy | | | |
| Cymdeithasau gwestai, tai llety a bwytai | | | |
| Cyfryngau: Teledu, papurau a radio ac ati. | | | |
| Cymdeithasau proffesiynol | | | |
| Eraill? | | | |

## Taflen waith 3: Yr 'Anodd eu Cyrraedd'

Wrth feddwl am bwy a sut i ymgysylltu â'ch cymuned, dylech ystyried y rhwystrau y gallai pobl eu hwynebu rhag cymryd rhan, a sut y gallwch chi oresgyn y rhain. Cymerwch amser i ystyried pwy allai fod yn 'anodd eu cyrraedd' neu grwpiau sydd wedi'u heithrio'n aml yn eich ardal. Gallai hynny gynnwys:

- Pobl oedrannus e.e. wedi'u heithrio'n digidol
- Pobl iau e.e. peidio â'i wneud yn berthnasol iddyn nhw
- Pobl â chyfyngiadau amser e.e. gwaith neu ofal plant
- Pobl ag anableddau e.e. lleoliadau hygyrch corfforol
- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell neu wledig e.e. digwyddiadau mewn lleoliadau anhygyrch
- Pobl sydd â rhwystrau iaith neu ddiwylliannol e.e. diffyg cyfieithiadau perthnasol

| **GRŴP**<br><br>**Rhesi gwag i chi ychwanegu rhai eraill** | **SYNIADAU AR GYFER ENNYN EU DIDDORDEB** |
|---|---|
| Pobl oedrannus | |
| Pobl ifanc | |
| Pobl â chyfyngiadau amser | |
| Pobl ag anableddau | |
| Pobl sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell neu wledig | |
| Pobl sydd â rhwystrau iaith neu ddiwylliannol | |
| | |

## Taflen waith 4: Mwy o Fanylion ar Ddulliau

Er mwyn helpu i ddechrau siapio unrhyw fath o ddigwyddiad cynllunio cymunedol (neu feddwl drwy a fyddai un yn ddefnyddiol o gwbl) meddyliwch am y cwestiynau canlynol:

- Beth ydych chi am **ei gyflawni** o ddigwyddiad?
- Beth yw'r **prif faterion** i gael sylw?
- Pa **mor hir** ddylai'r digwyddiad (neu ddigwyddiadau) fod?
- **Pryd ddylai'r digwyddiad** fod (amseroedd a dyddiadau) a ble ddylai'r digwyddiad gael ei gynnal?
- Pa **weithgareddau penodol** ddylai ddigwydd, ac ym mha drefn?
- Pwy yw'r **bobl allweddol** i'w gwahodd? Sut ydych chi'n codi ymwybyddiaeth os yn ddigwyddiad agored?
- Pa **ddeunydd briffio** y dylid ei wneud ar gael neu ei baratoi?
- Sut fydd canlyniadau'r digwyddiad yn cael eu defnyddio a'u hadeiladu arnynt **ar ôl hynny**?

Yn eich digwyddiadau, gwnewch yn siŵr bod eich gweithgareddau yn:

- groesawgar (a hyd yn oed hwyl!)
- cael eu hegluro'n glir gydag ymarferion casglu data syml
- creadigol a diddorol

Yn gyffredinol mae'n bwysig bod pobl yn deall pam eich bod yn gofyn iddyn nhw am wybodaeth, barn a syniadau, a sut y bydd eu mewnbwn yn cael ei ddefnyddio.

AWGRYM: Wrth ddefnyddio ffotograffiaeth, ffilm neu recordiad sain mewn digwyddiad, rhowch boster i fyny wrth y fynedfa i hysbysu'r mynychwyr sut y bydd hyn yn cael ei ddefnyddio (e.e. cyfryngau cymdeithasol, cyhoeddiad printiedig). Gwnewch yn glir sut y gall mynychwyr roi gwybod i rywun os nad ydynt am gael eu recordio, tynnu eu lluniau neu eu ffilmio - gallwch roi sticer llachar ar y person hwn fel y gellir eu hadnabod mewn unrhyw luniau a'u cropio allan.

Isod mae mwy o wybodaeth a thempledi ar gyfer ystod o wahanol ddulliau.

# Templed Gweithdy

<u>Cynnwys pobl yn y broses: GWEITHDY</u>

Gall gweithdai fod yn ffordd wych o ymchwilio'n ddyfnach i bwnc penodol neu lunio prosiect neu gynllunio cynnwys wrth i chi symud ymlaen o gam Kick Starter y prosiect. Gallant fod yn ffordd syml ac effeithiol o:

- gyflwyno pobl i'r prosiect;
- cael pobl i gymryd rhan a'u hysbrydoli;
- archwilio a chytuno ar wybodaeth a gweithredoedd allweddol

Ymarferoldeb:

- Gwahoddwch bobl sy'n cynrychioli'r gymuned honno ac unrhyw sefydliadau perthnasol (megis Cyngor Sir Conwy). Gellir cynnal gweithdai tebyg gyda grwpiau diddordeb gwahanol (Cymdeithas Dreftadaeth / Pobl Ifanc) a / neu gellir eu canolbwyntio ar wahanol bynciau (e.e.: cyfleusterau cymunedol, lle agored, ac ati).
- Gwnewch y gweithdy'n 1.5 – 2 awr (uchafswm).
- Bydd angen 2 - 3 o bobl i hwyluso ac arwain y gwaith o gynllunio a chyflawni gweithdai.
- Dylech anfon gwahoddiadau gyda dim llai na 3 wythnos o rybudd ymlaen llaw – 4/5 wythnos yn well.
- Gofynnwch i bobl gadarnhau eu presenoldeb neu beidio, ac anfonwch nodyn atgoffa ychydig ddyddiau ymlaen llaw.
- Anelwch am tua 25 o bobl.
- Meddyliwch am leoliad da a gwnewch yn siŵr eich bod yn osgoi amseroedd fel hanner tymor neu wyliau haf.

Ar gyfer y gweithdy ei hun, defnyddiwch restr wirio i sicrhau bod gennych yr holl ddeunyddiau sydd eu hangen arnoch:

| **Beth** | **Pwy fydd yn gwneud yn siŵr bod hyn yn cael ei wneud** |
|---|---|
| *Bathodynnau enw gan gynnwys ar gyfer y tîm* | *YCHWANEGU blaenlythrennau* |
| *Taflen bresenoldeb* | |
| *Rhifau byrddau* | |
| *Deunydd Arddangos / Taflenni Gwybodaeth E.E.: Map Tref A1, Agenda A1, Taflenni Blaenoriaeth PYNCIAU (1 y pwnc) A1, Papur A4 gwag* | |
| *Pensiliau a ffelt tips bach* | |
| *Post-its mawr* | |
| *Peniau mawr (i gadw'r ysgrifennu'n fawr, yn gryno ac yn hawdd ei ddarllen)* | |

| | |
|---|---|
| *Papur A4 gwag* | |
| *Papur Siart Fflip Gwag (ar gyfer y byrddau neu'r wal i lynu nodiadau post-it)* | |
| *Blu-Tac* | |

- Dylai'r holl nodiadau post-it a thaflenni siart fflip gael eu teipio ar gyfer cofnod llawn. Cadwch gofnod o'r pwyntiau / materion / gweithredoedd allweddol a rhannu hynny fel crynodeb gyda'r rhai a ddaeth yno (a'r rhai nad oedd yn gallu dod yno ond sydd â diddordeb yn y Cynllun).
- Pan fyddwch chi'n gwybod pwy sy'n dod dechreuwch feddwl am osodiad yr ystafelloedd. Mae grwpio pobl i mewn i grwpiau bach o ddim mwy na 6 yn caniatáu i bobl siarad yn rhydd ac yn hawdd am bynciau – yna mae'r pwyntiau allweddol yn cael eu bwydo'n ôl i'r gweithdy cyfan.
- Darparwch luniaeth – dangoswch i bobl eich bod chi'n gwerthfawrogi eu hamser.

## Templed Fformat Gweithdy

Cyrraedd

Meddyliwch am gael pobl i setlo mewn a gwneud yn siŵr eu bod yn gwybod lle i eistedd. Gallech hefyd gael ymarfer cyrraedd lle gall pobl ysgrifennu cwestiynau ar nodiadau post-it.

Cyflwyniad (15-20 munud)

- Hwylusydd i egluro pwrpas y gweithdy (peidiwch ag anghofio dweud y bydd adroddiad yn crynhoi allbynnau allweddol o'r gweithdy)
- Gofynnwch i unrhyw un sydd ddim am i'w llun gael ei dynnu i roi gwybod i X (gall osod sticer llachar arnyn nhw)
- Gwahoddwch bawb i ddweud pwy ydyn nhw
- Atebwch ddetholiad o gwestiynau o'r ymarferiad cyrraedd – gellir mynd i'r afael ag unrhyw gwestiynau pellach yn yr adroddiad adborth.

Gwaith Pwnc Grŵp (40 munud)

Gweithio ar bynciau gwahanol (megis tai / cyfleusterau cymunedol / mannau gwyrdd) a gofynnwch iddynt archwilio'r pwnc - adeiladu ar ganlyniadau'r adborth Kickstarter e.e.:

PWNC: Tai

- Heriau – cadarnhau / egluro beth sydd wedi'i nodi hyd yma
- Atebion Posibl – rhestrwch syniadau
- Cyflawni – sut / pwy sy'n allweddol wrth ddarparu'r atebion hynny
- Cofnodi gan ddefnyddio papur siart fflip

Adborth (25 munud)

- Mae pob Grŵp Pwnc yn cyflwyno adborth i'r grŵp cyfan
- Hwylusydd yn cofnodi unrhyw sylwadau allweddol ar y siart fflip

Cau (5 munud)

- Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r camau nesaf


Tabl cynlluniwr gweithdai – Copïwch yr adran mewn llwyd i'w defnyddio ar gyfer eich digwyddiad eich hun

| Amser | Gweithgaredd | Munudau | Pwy | Deunydd | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| 12.00 | Gosod | 90 | TÎM CYFAN | PAWB | Pwysig iawn rhoi mwy na digon o amser i'ch hunain osod - mae hyn yn golygu bod modd ymlacio pan fydd y digwyddiad yn dechrau (mae rhai pobl yn cyrraedd yn gynnar hefyd!) |
| 14.00 | Cyrraedd | 15 | RT ar y dderbynfa | Agenda A1<br>Rhestr Mynychwyr<br>Bathodynnau Enw | Disgwyliwch i bobl fod yn hwyr / ar amser felly rhowch beth amser i ganiatáu ar gyfer hynny! |
| 14.10 | Cyflwyniad | 15 | LM | Sleidiau Cyflwyniad? | |
| ayyb | ayyb | ayyb | ayyb | ayyb | Ayyb |

## Cynnwys Pobl: Digwyddiadau *Pop-up* / Galw heibio

- Dyma ddigwyddiadau lle caiff pobl eu gwahodd i alw heibio ar unrhyw adeg dros gyfnod o ychydig oriau (mae'n syniad rhedeg y rhain fel eu bod yn cwmpasu gwahanol rannau o'r dydd / wythnos e.e. Dydd Mercher 11am – 3pm / Dydd Iau 4 – 7pm / Dydd Sadwrn 11am – 2pm).
- Gosodir amrywiaeth o arddangosfeydd a gweithgareddau rhyngweithiol fel rhan o'r *pop-up* i ysgogi syniadau a chael adborth. Gellir ei redeg mewn gofod cymunedol lleol. Gellir ei addasu i fod ar raddfa lai a'i redeg mewn marchnad i gael ystod ehangach o bobl. Dylai'r digwyddiad(au) gael ei hysbysebu'n eang. Mae'n bwysig paratoi'r arddangosfeydd a'r gweithgareddau yn ofalus mewn perthynas â'r gofod sydd gennych.

- Mae'r canlyniadau'n cael eu hysgrifennu a'u dosbarthu i bawb a fynychodd ac a oedd ar gael drwy'r llwyfannau sydd gennych (e.e. ar eich gwefan / dolen i gylchlythyr adborth)




Uchod: Diagram yn dangos cynllun ystafell enghreifftiol ar gyfer digwyddiad galw heibio

Mae'r diagram yn dangos 'map ar gyfer dotiau' ger y dderbynfa. Er mwyn cael syniad da o ble mae pobl wedi dod (a chodi'n ddiweddarach unrhyw fylchau) mae pawb sy'n cyrraedd yn syml yn rhoi, ar fap mawr, dot lliw gludiog yn agos at ble maen nhw'n byw.

## Cynnwys pobl: Byrddau Rhyngweithiol


Mae byrddau rhyngweithiol (a ddangosir ar y diagram uchod gan y siâp V llydan) yn ffordd o gasglu gwybodaeth gan bobl ac yn ffordd wych o greu darlun cyffredinol dros gyfnod gweithdy neu ddigwyddiad galw heibio / *pop-up* (digwyddiadau sy'n cael eu cynnal dros ddiwrnod neu brynhawn y gall pobl 'bicio i mewn' iddynt ar unrhyw adeg).

Gellir defnyddio'r dull hwn gyda mapiau neu destun. Bydd angen taflenni siart fflip mawr ar gyfer hyn yn ogystal â beiros mawr a nodiadau post-it. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gallu defnyddio'r wal, neu gall îsl fod yn ffordd dda o gyflwyno'r byrddau hyn. Gellir gosod mapiau mawr (A1 neu A0) ar fwrdd mewn man lle gall pobl fynd o'i gwmpas.

Gwahanol fathau o fyrddau rhyngweithiol:

- Blaenoriaethu awgrymiadau – rhowch nifer penodol o ddotiau gludiog i bobl a gofynnwch iddyn nhw eu gosod wrth ymyl y gweithredoedd maen nhw'n eu cefnogi fwyaf.
- Adborth ar faterion / syniadau / cynigion cynllun gweithredu: Dalen fawr wedi'i theipio ymlaen llaw gyda chynigion - gall pobl dicio os ydyn nhw'n cytuno / gosod croes os nad ydyn nhw. Gadewch le ar y gwaelod neu ar ddalen wag nesaf am sylwadau (gofynnwch i bobl wneud hyn ar nodiadau post-it – bydd hyn hefyd yn grwpio sylwadau sy'n dilyn thema a rennir)
- Mapiau: Marciwch gyfleusterau cymunedol allweddol a sylwadau gyda baneri bach / gofynnwch i bobl adnabod y llefydd gorau (dot gludiog gwyrdd) / gwaethaf (dot gludiog coch) yn y dref a chael nodiadau post-it fel y gall pobl ychwanegu sylwadau
- Dalen Unrhyw Beth Arall: Mae hi bob amser yn dda cael dalen i gasglu meddyliau terfynol / sylwadau cyffredinol

Enghraifft o adborth ar Gynigion – Gwag ar y chwith a chofnod o'r canlyniadau ar y dde



**ACCESS AND MOVEMENT ISSUES/IDEAS**


**Tick if you agree with a listed item, place a cross if you disagree, and add any comments or ideas**


***This is about vehicle, pedestrian and cycle access and movement, not just on the site. This applies to the first phase but also think about next stages, which will include some commercial even industrial uses.***

1. All vehicles only have one constricted entrance point.
2. Safety on the approach, at the entra
3. Reduce dependency on cars.
4. Traffic calming in the approach to th
5. Pedestrian priority across all of the
6. Controls on access times for HGVs.
7. Introduce noise reduction measures
8. Full disability access throughout.
9. Continuous public path along the riv
10. Clear cycle routes in and around.
11. Good street lighting.
12. No public parking (all spaces reser
13. Introduce east-west connections b

**ACCESS AND MOVEMENT ISSUES/IDEAS**

1. Having one vehicle entrance point (by the Steam Packet) demands real care. ✔81
2. Pay careful attention to safety, speed etc. ✔70
3. Reduce dependency on cars. ✔55
4. Traffic calming in the approach to the site. ✔58 ✘3
5. Avoid any short cuts or rat-running in approaches to the site. ✔77
6. Pedestrian priority across all of the site, aim for 20mph maximum. ✔64
7. Controls on access times for HGVs. ✔71 ✘1
8. Introduce noise reduction measures. ✔48
9. Full disability access throughout. ✔55
10. Continuous public path along the river frontage. ✔86
11. Clear cycle routes in and around. ✔50 ✘2
12. A communal, secure place to leave bikes overnight. ✔54
13. Good street lighting but with no/minimal light pollution. ✔53 ✘1
14. Provide charging points for electric cars. ✔40 ✘7
15. Introduce a few more connections from existing footpaths above the site down to the river and the waterfront. ✔55 ✘5
16. 'Travel Plan' to include regular buses, car club/sharing schemes, site wide control system, cycle facilities etc. ✔61 ✘1
17. Promote and support water taxi service. ✔61 ✘1
18. River passenger ferry to steamer quay car parks. ✔ 57
19. Traffic management plan for the construction period. ✔52






## Ymgynghori â phobl: Cynllun drafft

Mae ymgynghori ar eich Cynllun Kickstarter drafft, neu Gynllun Cynefin neu Gynllun Cymunedol llawn yn gam pwysig wrth gwblhau'r cynlluniau ac adeiladu ymwybyddiaeth a chefnogaeth ehangach ymysg y cyhoedd. Os ydych chi'n paratoi Cynllun Cynefin, bydd hwn yn gam pwysig o ran symud ymlaen â'ch Cynllun i ddod yn ddogfen gynllunio ffurfiol.


Bydd sicrhau bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn ardal eich cynllun yn ymwybodol o'r cynllun drafft ac yn cael cyfle i wneud sylw yn bwysig. Pethau allweddol i benderfynu arnynt:

**Paratoi** - penderfynu ar ddull cyffredinol

- Pryd (mae 6 wythnos yn gyfnod da o amser)
- Sut i roi cyhoeddusrwydd i (posteri / taflenni / newyddion lleol / cyfryngau cymdeithasol / rhestr bostio)
- Dulliau: Digwyddiadau Galw heibio / *pop-up* mewn ambell leoliad gwahanol ar adegau gwahanol / cyflwyniadau i grwpiau allweddol. Ystyriwch gynnal gweithdy. Gweler y canllawiau yn gynharach yn y pecyn cymorth hwn.
- Deunydd Cefnogi: Taflen sy'n crynhoi nodweddion allweddol y Cynllun a gwybodaeth am sut y gall pobl ddarganfod mwy / deunydd arddangos / gwybodaeth ar-lein
- Mecanwaith adborth: Arolwg ar-lein gydag opsiynau i ymateb trwy gopi papur
- Cyflawni
- Rhannwch y dasg o fynychu digwyddiadau rhwng y gweithgor
- Ychwanegwch ddigwyddiadau pellach os oes angen neu addasu lle bo angen yn ystod y cyfnod ymgynghori 6 wythnos
- Ar ôl Ymgynghoriad
- Dadansoddi adborth
- Newid / Diweddaru’r Cynllun fel sydd angen
- Paratoi adroddiad yn nodi canlyniadau'r ymgynghoriad a’r ffyrdd y mae’r Cynllun wedi ei ddiwygio o ganlyniad

**Hysbysu pobl: Posteri / Taflenni Gwybodaeth**

- Adnodd ar-lein gwych lle gallwch chi greu posteri / taflenni / delweddau gwych ar gyfer cyfryngau cymdeithasol ac ati **am ddim** yw Canva - [https://www.canva.com/create/posters/](https://www.canva.com/create/posters/)
- Mae posteri'n ffordd wych o godi ymwybyddiaeth gyffredinol neu hysbysebu digwyddiad penodol. Gall taflenni fod yn ffordd ragorol o grynhoi nodweddion allweddol eich Cynllun Cynefin.
- Posteri enghreifftiol a wnaed gan ddefnyddio Canva:






## Taflen waith 5: Profforma Cynllunio Prosiect

| CAM | PWY I YMGYSYLLTU Â NHW | NODIADAU / MANYLION – Dull / pwy i'w cynnwys / pwrpas |
|---|---|---|
| 1A: Adnabod materion<br><br>Cynnwys nodiadau ar amserlenni yma | | |
| | | |
| | | |
| 1B: Cytuno ar faterion | | |
| | | |
| | | |
| 2: Casglu tystiolaeth | | |
| | | |
| 3A: Datblygu Gweledigaeth a Deilliannau | | |
| | | |
| | | |
| 3B: Cytuno ar Weledigaeth a Deilliannau | | |
| | | |
| | | |
| 4A: Cynhyrchu Cynllun Cynnig Cyntaf | | |
| 4B: Rhannu Cynllun Cynnig Cyntaf | | |
| | | |
| | | |
| 5: Diwygio Cynllun Cynnig Cyntaf | | |
| 6A: Cynhyrchu Cynllun terfynol | | |
| 6B: Cadarnhau cynllun terfynol | | |
| | | |
| | | |

# ATODIAD 2: CANLLAW

Mae llawer, llawer o ganllawiau i gynnal ymgysylltu cymunedol effeithiol. Y broblem yw bod bron pob un ohonynt yn dweud llawer mwy nag sydd yma (gormod efallai) ynghylch pam ymgysylltu, egwyddorion, rhanddeiliaid, dulliau ac ati ac yna cynnig fawr ddim o ran y manylion ymarferol o ddydd i ddydd, ymarferol am gynnal gweithdy ac ati.

Nid ydym yn awgrymu y dylai pawb ar eich Gweithgor ddarllen pob un o'r Canllawiau hynny a nodir isod. Ein hawgrym yw mai dim ond yr Hyrwyddwr Ymgysylltu o fewn eich Gweithgor sy'n cymryd golwg gyflym ar y Canllawiau hynny a nodir isod i ddewis unrhyw syniadau defnyddiol, rhestrau, dulliau eraill ac ati a allai fod yn berthnasol yn uniongyrchol i'ch Cynllun. Fodd bynnag, mae ychydig o ddolenni dethol i ganllawiau:

**http://www.communityplanning.net**

Dyma'r prif argymhelliad ar gyfer gwefan sy'n llawn gwybodaeth arbennig o ddefnyddiol ac ymarferol. Dyma wefan fanwl wych gydag ystod eang o adnoddau.

**https://www.conwy.gov.uk/en/Council/Have-your-say/assets/documents/Community-Involvement-strategy-updated-2021-English.pdf**

Mae'r pecyn cymorth hwn yn esbonio'r gwahanol offer a thechnegau ymgysylltu cymunedol traddodiadol a digidol sydd ar gael i chi, gan roi trosolwg o'r ffordd y maent yn gweithio a phryd sydd orau i'w defnyddio.

**https://theglasshouse.org.uk/resources/designing-places-with-people-tips-for-your-community-engagement-strategy/**

Mae rhai adnoddau gwych gan The Glasshouse. Mae'r ddogfen hon yn rhoi cynghorion wedi eu dylunio’n arbennig ar gyfer pobl sy'n gweithio ar drawsnewid adeiladau a gofodau.